

# **Rydym yn chwilio am bobl gyfeillgar a brwdfrydig gyda gwybodaeth leol ac agwedd gadarnhaol i ddod yn rhan o'n tîm.**

**Rôl :** Gwirfoddolwr Croeso i Ymwelwyr Llyn Tegid  
**Goruchwyliwr:** Warden Ardal

## **Fel rhan o dîm cyfeillgar a chydweithredol o wirfoddolwyr byddwch yn;**

- Gweithio ochr yn ochr â'n Tîm Wardeniaid i roi croeso cynnes, cwrtais a deniadol i ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol;
- Darparu cyngor a chyfeirio'r cyhoedd ym Maes Parcio Blaendraeth Llyn Tegid a Llangywer;
- Casglu sbwriel, pan ofynnir i chi wneud hynny, a'n helpu ni i gadw'r amgylchedd naturiol yn iach a chroesawgar.
- Monitro ac adrodd ar gyflwr unrhyw strwythurau mynediad (ee gatiâu), arwyddion cyfeiriol neu addysgiadol, a phaneli dehongli;
- Rhoi gwybod am unrhyw bryderon neu faterion ehangach (ee difrod i'r amgylchedd naturiol neu eiddo);
- Rhoi gwybod am unrhyw fywyd gwyllt a welwyd neu ddigwyddiadau diddorol;
- Ymgysylltu ag ymwelwyr a rhoi adborth ar unrhyw sylwadau i'r Warden Ardal;
- Hyrwyddo gwaith yr Awdurdod ac annog y cyhoedd i grwydro Parc Cenedlaethol Eryri.

## **Fel Gwirfoddolwr Croesawu Ymwelwyr dylech fod yn;**

- Barod i wirfoddoli i ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Meddu ar y gallu i deithio i leoliadau yn annibynnol.
- Meddu ar lefel resymol o ffitrwydd corfforol i allu cerdded y llwybr patrôl dynodedig.
- Frwdfrydig dros ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Meddu ar brofiad neu ddiddordeb mewn datblygu sgiliau monitro ac adrodd.
- Meddu ar frwdfrydedd dros y Parc Cenedlaethol a meddu ar neu fod yn barod i ennill gwybodaeth am yr amgylchedd, hanes, a lleoedd i ymweld â nhw.
- Bod ar gael yn gyffredinol ar benwythnosau a gwyliau banc ac yn barod i wirfoddoli yn weddol reolaidd.

## **Yr hyn fydd o fudd i chi;**

- Ein gwerthfawrogiad ni am fod yn rhan o'n tîm ymgysylltu a rheoli ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol a monitro seilwaith ymwelwyr hanfodol.
- Profiad o ymgysylltu'r cyhoedd â thirweddau hardd.
- Bydd treuliau rhesymol (milltiroedd cerbyd) yn cael eu had-dalu.
- Darperir dillad brand y Parc Cenedlaethol ac Offer Diogelwch Personol yn cael eu cyflenwi fel y bo'n briodol.

## **Gwybodaeth berthnasol arall;**

- Mae APCE yn gweithredu cod ymddygiad y mae'n ofynnol i bob gwirfoddolwr gadw ato.
- Mae trefniadau llofnodi i mewn/allan llym ar gyfer dyletswyddau patrol er mwyn sicrhau y gallwn reoli eich iechyd a'ch diogelwch. Rhaid i chi gysylltu â'r Warden Ardal sydd ar ddyletswydd i roi gwybod iddynt am eich symudiadau.
- Rôl yn yr awyr agored yw hon. Dylai gwirfoddolwyr wisgo esgidiau addas a dillad awyr agored pwrpasol ar gyfer tywydd cyfnewidiol.
- Rhowch wybod i ni am unrhyw gyflyrau meddygol neu ofynion arbennig fel y gallwn addasu a'u diwallu.

